CYMDEITHAS GWAITH MAES
RHIFYN 34
MAI 2007

John Muir

gan Dafydd Huw, Gwersyllt yr Urdd, Glanllyn

Nod Gwobr John Muir yw annog pobl o bob oed a chefndiroedd i ddarganfod, mwynhau a gwarchod ardaloedd gwyllt y blaned, trwy gynllun strwythurol sydd hefyd yn hyblyg.

Fe'i lansiwyd yn 1997 gan Ymddiriedolaeth John Muir fel cynllun addysgol i gynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ynghylch ag achub a gwarchod ardaloedd gwyllt ym Mhrydain.

Hanfod gwobr John Muir yn y bôn yw:

i) Annog pobl i werthfawrogi ac ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros ardaloedd gwyllt.
ii) Hyrwyddo datblygiad addysgol a phersonol ieuenctid a'r gymuned ehangach.
iii) Annog agenda amgylcheddol o fewn mudiadau ieuenctid.
iv) Sicrhau nad yw amgylchiadau cymdeithasol yn eithrio pobl rhag cael cyfleoedd mewn gwaith cadwraeth.

Ceir tair lefel i wobr John Muir:
1. Gwobr Darganfod 2. Gwobr Archwilio 3. Gwobr Gwarchod

Yn ystod Mis Chwefror eleni ymwelodd disgyblion Blwyddyn 8 Ysgol Maesgarmon, Yr Wyddgrug â Gwersyll yr Urdd Glanllyn i gymryd rhan yn lefel rhagarweiniol gwobr John Muir.

Dyma'n fyr grynodeb o'i harhosiad ar lannau Llyn Tegid.

Bu'r disgyblion yn darganfod a dysgu am yr ardal leol trwy deithio'i o'i hamgylch mewn canŵ ar Lyn Tegid a thrwy daith gerdded ac archwilio nodweddion naturiol a gwyllt yr ardal trwy gyfres o gemau amgylcheddol yng nghoedwig y Gwersyll. Am ddeuddydd cafodd warden Llyn Tegid, Arwel Morris gymorth y grŵp i gasglu sbwriel a chlirio deunydd organig o faes carafannau lleol. Yn arferol byddai'r gwaith yn cymryd sawl wythnos i wardeiniaid y Parc Cenedlaethol felly roedd 80 pâr o ddwylo ychwanegol yn help garw.
Rhannwyd y deunydd organig i bentyrrau o goed er mwyn ei gludo i'r Bala fel bod trigolion lleol yn gallu ei gasglu a'i ddefnyddio fel coed tân. Roedd y deunydd manach yn cael ei ail gylchu mewn chwe bin mawr yn Ysgol y Berwyn a'i werthu o fewn y flwyddyn fel compost gardd.

Cafwyd cystadleuaeth ar y nos Fawrth gyda'r disgyblion yn derbyn bag o sbwriel er mwyn creu a chynllunio rhywbeth defnyddiol i'r Gwersyll.
Bu'n dipyn o hwyl gyda'r cynlluniau yn cynnwys:

i) Ffôn Symudol – y model diweddaraf
ii) Sugnydd Llwch – "Tegid Bach"
iii) Canŵ, Padl a Helmed
iv) Amryw o nwyddau i Siop y Gwersyll

Yn ogystal bu'n fodd i argyhoeddi'r gwahanol grwpiau o'r pwysigrwydd o ailgylchu ac ail ddefnyddio deunyddiau yn hytrach na'u taflu i'r bin.
Dysgodd y disgyblion am bysgodyn arbennig Llyn Tegid, y gwyniad gan brofi'r cyfle unigryw o weld staff Parc Cenedlaethol Eryri ac Asiantaeth yr Amgylchedd yn eu dal er mwyn godro wyau o'r fenyw a chymryd y DNA.

I sicrhau goroesiad y gwyniad mae'r wyau yn cael eu cludo i leoliad arall lle gobeithir y bydd poblogaeth newydd yn ffynnu dan amgylchiadau gwell.

Mae'n debyg mai gelyn pennaf y gwyniad yw'r "ruffe": pysgodyn gafodd ei gyflwyno i Lyn Tegid yn yr 80au fel abwyd byw i ddal penhwyad (pike).

Gan ei fod yn bysgodyn ymosodol mae'n ymgasglu o amgylch ardaloedd deori'r gwyniad i fwyta'r wyau a'r pysgod ifanc sy'n arwain at leihad yn llwyddiant y gwyniad i fridio.

Bu wythnos John Muir yn hynod o lwyddiannus gyda'r disgyblion yn cael cyfle i gofnodi'r gwahanol elfennau o'r cwrs mewn ysgrifen, lluniau a barddoniaeth. Gobeithio y byddant yn dychwelyd yn ôl i'r ysgol a'u cartrefi i rannu eu profiadau ac ysgwyddo cyfrifoldeb dros warchod a diogelu ardal wyllt yn eu milltir sgwâr.